# Gweithredu Trafnidiaeth Gymunedol

Un Llais Cymru

One Voice Wales




## Yr her:

Ar hyd Cymru, mae’r costau byw cynyddol a’r gostyngiadau mewn gwasanaethau bws lleol wedi gadael llawer o drigolion, yn enwedig yr henoed, pobl ifanc, a phobl heb geir, yn bell o wasanaethau hanfodol. Mewn ardaloedd gwledig, mae trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig yn ei gwneud yn anodd i bobl gyrraedd gofal iechyd, siopau, addysg, a gweithgareddau cymunedol.

Mae Cymunedau Cymuned a Thref yn camu i mewn i gau’r bwlch. Drwy gynlluniau cludiant hyblyg a gynlluniwyd yn lleol, maent yn helpu trigolion i gadw mewn cysylltiad, yn annibynnol ac yn weithgar ym mywyd y gymuned.

## Atebion Lleol ar Waith:

- **Bysus Cymunedol a Galw’r Gyrrwr**: Bysus mini sy’n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr neu’r cyngor yn cynnig teithiau cyson a rhai ar alw i gyrchfannau pwysig fel siopau, canolfannau iechyd a hybiau cymdeithasol.
- **Cynlluniau Gyrrwr Gwirfoddol:** Trigolion yn defnyddio’u ceir eu hunain i helpu cymdogion i fynd i apwyntiadau a gweithgareddau cymunedol. Mae’r cynlluniau hyn yn gost-effeithlon, yn gynhwysol ac yn adeiladu ysbryd cymunedol
- **Partneriaethau a Chydweithio:** Cynghorau yn gweithio gydag elusennau, cymdeithasau tai, a darparwyr trafnidiaeth gymunedol i rannu adnoddau, osgoi dyblygu, ac ymestyn eu cyrhaeddiad.
- **Dylunio’n Gynhwysol:** Cerbydau sy’n addas i gadeiriau olwyn, prisiau gostyngol, a thocynnau rhad yn sicrhau fod trafnidiaeth gymunedol ar agor i bawb.

## Y buddion:

Nid dim ond symud pobl mae’r cynlluniau hyn, maent yn adeiladu cymunedau cryfach, iachach a mwy gwydn.
Mae cyswllt rheolaidd yn lleihau unigrwydd ac yn helpu iechyd y meddwl a’r corff.


Mae pobl ifanc yn elwa hefyd. Mae teithio fforddiadwy, hyblyg yn eu helpu i gael mynediad at addysg, gweithgareddau ar ôl ysgol, a gwaith rhan amser, gan gynyddu annibyniaeth a chyfle.

Bishopston CC

**Mae Cyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt** yn rhedeg gwasanaeth bws cymunedol ddwywaith yr wythnos i fynd â thrigolion i siopau a chyfleusterau yn y Mwmbwls ac Abertawe.

Gan weithio mewn partneriaeth â Chludiant Cymunedol D.A.N.S.A mae’r cyngor yn darparu gwasanaeth cost-effeithlon sy’n derbyn pasys bws ac sy’n fforddiadwy i bawb.

Mae’r gwasanaeth mor boblogaidd fel ei fod yn clirio’i gostau yn aml ac mewn rhai misoedd, yn cynhyrchu elw bychan sy’n cael ei ail-fuddsoddi mewn prosiectau cymunedol eraill.




Gwyliwch fws cymunedol Llandeilo Ferwallt wrth ei waith

## Effaith:

**Mae trafnidiaeth gymunedol dibynadwy yn galluogi pobl i:**

- Fynychu digwyddiadau cymdeithasol, clybiau cinio, a chyfleoedd gwirfoddoli.
- Cadw mewn cysylltiad â ffrindiau, cymdogion a theulu.
- Cyrraedd siopau, gofal iechyd, addysg, a gwaith.
- Cynnal annibyniaeth, urddas a lles..

## Beth mae Cynghorau eraill yn ei wneud

**Cyngor Cymuned Llandochau**

Yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Gymunedol Dwyrain y Fro, mae'r cyngor yn ariannu gwasanaeth trafnidiaeth hygyrch i archfarchnadoedd lleol.
Mae gyrrwr gwirfoddol yn cynnig cymorth o ddrws i ddrws, gyda'r teithwyr rhoi cyfraniad bach at gostau rhedeg.

Arweiniodd **Cyngor Tref Blaenafon** ar greu Partneriaeth Trafnidiaeth Gymunedol Gogledd Torfaen, sy'n canolbwyntio ar gymorth i iechyd a datblygu cymunedol.

Mae **Cyngor Bedlinog a Threlewis** yn cynnig gwasanaeth bws dwyffordd am ddim i drigolion Trelewis, gan helpu pawb i gadw mewn cysylltiad, ymweld â'r hyb cymunedol, a mwynhau amser gyda theulu a chymdogion.

**Cyngor Cymuned Llangatwg**
Yn dilyn ymgynghori'n helaeth â'r gymuned, cafod y cyngor gyllid grant ThinK i archwilio i gael bws cymunedol trydan a chynllun rhannu ceir mewn chwe phentref.
Erbyn hyn mae'r prosiect hwn, o dan arweiniad CIC Green Valleys Llangatwg, yn digwydd fel cynllun peilot gyda chefnogaeth gan y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol.

**Cyngor Cymuned Aberdyfi**
Mae Aberdyfi yn datblygu cynllun trafnidiaeth gymunedol yn dilyn ymgynghori â'r gymuned. Maent yn cael arweiniad gan Gynllun Tro Da Benllech ar sefydlu gwasanaeth gyrrwr gwirfoddol, ac mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r cynllun fel model a allai fod yn addas i'r sir gyfan.

## Cyllid a Phwerau

Mae pob cyngor cymuned yng Nghymru yn gorfod cael grymoedd cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth amrywiol i'w cymunedau lleol. Mae'r grymoedd hyn, a roddir iddynt trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cynghorau i drefnu gweithgareddau a mentrau o bob math i wella llesiant ac ansawdd bywyd pobl leol. Gall grymoedd a chyfiawnhadau amrywio, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw.
Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru: gweinydd@unllaiscymru.cymru

**Eisiau gwybod mwy?**

**FAm ragor o wybodaeth ar brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales
https://bit.ly/3KYHftK
Un Llais Cymru